



Y Gorchmynnol

Fel arfer, rydym yn defnyddio'r gorchmynnol yn yr ail unigol (ti) a'r ail lluosog (chi).

Mae'r **ail unigol** yn cael ei ffurfio mewn dwy ffordd.

- bonyn y ferf ar ei ben ei hun, e.e.
 - rhed
 - edrych
 - eistedd
 - dal
- ychwanegu **-a/-ha/-ia** at y bonyn, e.e.
 - rheda
 - cerdda
 - cofia
 - eistedda
 - mwynha

Mae'r **ail lluosog** yn cael ei ffurfio drwy ychwanegu **-wch** at **fonyn y ferf**, e.e.

- rhedwch
- cerddwch
- edrychwch
- ysgrifennwch

Wrth ysgrifennu Cymraeg ffurfiol, bydd **a** ym monyn y ferf yn newid i **e** o flaen **-wch**, e.e.

- glanhau > glanhewch
- caniatáu > caniatewch
- bwyta > bwytewch



Dyma enghreifftiau o ffurfiau gorchmynnol rhai berfau.

Terfyniad y ferf	Berfenw	Bonyn	Gorchymyn
-io			
-io	Anghofio	Anghofi-	Anghofia/Anghofiwch
-io	Ffonio	Ffoni-	Ffonia/Ffoniwch
-io	Cofio	Cofi-	Cofia/Cofiwch
dim terfyniad			
	Gofyn	Gofynn-	Gofynna/Gofynnwch
	Eistedd	Eistedd-	Eistedda/Eisteddwch
	Edrych	Edrych-	Edrycha/Edrychwch
	Darllen	Darllen-	Darllena/Darllennwch
llafariaid			
-o	Gwisgo	Gwisg-	Gwisga/Gwisgwch
-u	Tynnu	Tynn-	Tynna/Tynnwch
-u	Sychu	Sych-	Sycha/Sychwch
-u	Talu	Tal-	Tala/Talwch
-i	Codi	Cod-	Coda/Codwch
-a	Bwyta	Bwyt-	Bwyta/Bwytwch
-ed/-eg			
-ed	Cerdded	Cerdd-	Cerdda/Cerddwch
-eg	Rhedeg	Rhed-	Rheda/Rhedwch
-ed	Yfed	Yf-	Yfa/Yfwch
-oi			
-oi	Rhoi	Rho-	Rho/Rhowch
-oi	Troi	Tro-	Tro/Trowch